

# Llestri a chytleri



# Llestri a chytleri

## Llwy bren

**Llwy bren** — roedd llwyau pren wedi'u cerfio â llaw yn cael eu defnyddio'n gyffredin yn yr Oesoedd Canol.



### Sut ydyn ni'n gwybod am llwyau pren?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Llestri a chytleri

## Treinsiwr pren

**Treinsiwr pren** — math cynnar o blât. Daw'r gair treinsiwr (trencher) o'r gair Ffrengig canoloesol *tranchier*, a oedd yn golygu "torri".

Darn o hen fara oedd treinsiwr yn wreiddiol, wedi'i dorri yn siâp sgwâr gan gerfiwr, a gellid rhoi'r bwyd arno cyn ei fwyta. Ar ddiwedd y pryd, gellir bwyta'r treinsiwr gyda saws, ond yn amlach roedd yn cael ei roi fel cardod i'r tlawd. Yn ddiweddarach datblygodd y treinsiwr yn blât bach o fetel (i'r cyfoethog) neu bren (i bawb arall).



### Sut ydyn ni'n gwybod am dreinswyr pren?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



# Llestri a chytleri

## Basarn pren

**Basarn pren (powlen yfed fas)** — byddai gan bawb eu basarn eu hunain yn y 13eg Ganrif, y 14eg Ganrif a'r 15fed Ganrif. Cafodd basarnau neu bowlenni yfed eu cyflwyno gan y Normaniaid, ac roedd llawer o ddarluniau mewn llawysgrifau canoloesol o fasarnau'n cael eu defnyddio gan bobl ar bob lefel o'r gymdeithas. Onnen oedd y pren a ddefnyddiwyd amlaf, er nad hwn oedd y pren hawsaf i'w durnio.

Roedd rhai basarnau yn goeth iawn gydag ymylon metel wedi'u haddurno'n brydferth.

Mae pobl yng ngogledd orllewin Ffrainc yn dal i ddefnyddio powlenni yfed heddiw, ar gyfer eu coffi amser brecwast neu ar gyfer llaeth neu siocled poeth fel arfer, ond mae powlenni yfed modern Ffrainc wedi'u gwneud o tseina fel arfer.



### Sut ydyn ni'n gwybod am fasarnau pren?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

# Llestri a chytleri

## Powlen, cwpan a llwy gorn

**Powlen, cwpan a llwy gorn** — roedd corn yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin yn yr Oesoedd Canol. Mae corn anifail yn cynnwys gelatin yn rhannol, ac mae'n mynd yn hydrin iawn ar ôl ei feddalu mewn dŵr berw. Gellir ei fflatio wedyn, ei wahanu'n ddalennau, ac yna gellir ei siapio, ei dorri a'i lathru. Hwn oedd y deunydd canoloesol a oedd yn gyfwerth â phlastig, ac roedd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i wneud powlenni, cwpanau a llwyau.



### Sut ydyn ni'n gwybod am bowlenni, cwpanau a llwyau corn?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

# Llestri a chytleri

## Llwy asgwrn

**Llwy asgwrn** — roedd asgwrn yn cael ei ddefnyddio at lawer o ddibenion yn yr Oesoedd Canol, am fod digon ohono ar gael yn hawdd, ac roedd yn ddeunydd cadarn ond hawdd i'w weithio, a gellid ei gerfio ar gyfer eitemau addurniadol. Mae pen pigfain iawn i'r dyluniad arbennig hwn, a gallai fod wedi gweithio fel 'priciwr' — i bricio bwyd a'i ddal yn llonydd (fel fforc) wrth ei dorri gyda chyllell.



### Sut ydyn ni'n gwybod am lwyau asgwrn?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Llestri a chytleri

## Llwy biwter caregl

**Llwy biwter caregl** — roedd y math hwn o lwy yn cael ei ddefnyddio naill ai i godi darnau annymunol allan o'r gwin cymun, neu i fwydo'r bara i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan yn seremoni'r cymun.



### Sut ydyn ni'n gwybod am lwyau piwter caregl?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



# Llestri a chytleri

## Cyllell mewn gwain ledr

**Cyllell mewn gwain ledr** — roedd cyllell gan bawb bron yn yr Oesoedd Canol — dynion, menywod a phlant. Roedd cyllell yn rhan arferol o'r hyn roeddech yn ei gludo o gwmpas, ac roedd yn cael ei defnyddio at bob mathau o bethau, e.e. naddu preniau, torri rhaff, torri cig. Pan oeddech yn mynd am bryd o fwyd roedd disgwyl i chi fynd â'ch cyllell eich hun. Ni fyddai disgwyl i'r gwsteiwr ddarparu cyllyll i bawb eu defnyddio.



### Sut ydyn ni'n gwybod am gyllyll bwyta?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.



# Llestri a chytleri

## Pecyn hogi

**Pecyn hogi** — mae'r pecyn hwn yn cynnwys 'stricbren' pren — bwrdd rhigolog i chi roi tywod neu rut arno ar gyfer hogi bras; carreg ddŵr/carreg hogi a fydd yn rhoi min rasel; a strop (strapen hogi) i'w wneud yn fwy miniog fyth, a'r cyfan yn cael eu cadw mewn rholyn lledr. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yr Oesoedd Canol wedi hogi eu cyllyll a'u dagrau eu hunain gan ddefnyddio offer fel hwn. Byddai pobl wedi defnyddio'r garreg hogi a'r strop yn rheolaidd i gadw min ar eu cyllyll.

Wrth hogi cyllell, os yw'r llafn yn bŵl iawn, byddech yn dechrau gan ddefnyddio'r stricbren. Byddech yn penlinio ar y strapen led; neu'n ei dal rhwng eich corff a bwrdd, er mwyn dal y stricbren yn ei le. Byddech yn rhoi tywod neu rut i mewn i rigolau'r stricbren. Yna byddech yn rhoi llafn y gyllell mewn rhigol, yn gwasgu i lawr yn gadarn ac yn symud y gyllell yn ôl ac ymlaen nes bod gennych fin eithaf miniog. I hogi mwy fyth, defnyddiwch y garreg hogi. Mae angen i'r garreg fod yn wlyb, ac mae angen cadw ongl y llafn ar ongl gyson i'r garreg, ar ryw 20-25 gradd, ac yna tynnu/lithro'r gyllell i ffwrdd oddi wrth ymyl y llafn. Pan fydd y llafn yn finiog, byddai wedi cael ei hogi neu'i llathru mwy eto drwy symud yr ymyl miniog dros y strop lledr yn y cyfeiriad croes i'r ymyl miniog, gan ddefnyddio'r strop lledr. Byddai 10 o weithiau wedi bod yn ddigon mae'n siŵr.

### Sut ydyn ni'n gwybod am becynnau hogi?

Darluniau a disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol, a darganfyddiadau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

